**Communities and Culture Committee**

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru** National Assembly for **Wales**

At yr ymgyngoreion sydd ar y rhestr amgaeedig

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mawrth 2010

Annwyl Gyfaill,

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: 'Cynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol'**

Mae Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth i'w ymchwiliad i 'Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol.'

## Cefndir – Cynhwysiant Ariannol

Mae cynhwysiant ariannol yn agenda bolisi eang. Mae'n cynnwys nid yn unig fynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd fel cyfrifon banc, credyd ac yswiriant fforddiadwy, ond hefyd gallu a gwybodaeth ariannol. Mae darparu gwasanaethau cynghori addas i helpu pobl â phroblemau dyledion ac i sicrhau cymaint â phosib o incwm (yn arbennig mewn cysylltiad â budd-daliadau heb eu hawlio) hefyd yn rhan o'r agenda bolisi ehangach sy'n ceisio datblygu cymdeithas gynhwysol yn ariannol a threchu tlodi.

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer Cymru: Mae Pawb yn Cyfrif*. Nododd y strategaeth, er mwyn mynd i'r afael o ddifrif ag allgau ariannol bod dull gweithredu mewn partneriaeth, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a'r sector gwirfoddol, yn ofynnol.

Ffon / Tel: 029 20 898736
E-bost / E-mail:sandy.mewies@wales.gov.uk

Mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig â hi, mewn cysylltiad â Thai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant. Rydym o'r farn felly bod ymchwiliad i strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn amserol, a'i fod o fewn cylch gwaith ein Pwyllgor trawsbleidiol.

**Cefndir - Gallu Ariannol**

Rydym wedi penderfynu mai prif ffocws ein hymchwiliad fydd pwysigrwydd gallu ariannol, a sut mae pobl o **bob oed** yn cael y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i reoli eu materion ariannol eu hunain yn effeithiol drwy gydol eu hoes.

Wrth lansio'r ymchwiliad hwn, gwyddom fod yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) yn flaenllaw o ran cynyddu gallu ariannol yng Nghymru, wrth iddo roi ei gynllun gweithredu ar waith ym mis Gorffennaf 2008 *Eich helpu i wneud y gorau o'ch arian*. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys cyfres o gamau sy'n cynnig addysg a chefnogaeth i bobl ar adegau allweddol yn eu bywydau, yn cynnwys cyngor i ddarpar-rieni, i rai sy'n gadael addysg llawn amser a rhai sy'n nesu at oedran ymddeol.

Rydym yn sylweddoli hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â rhanddeiliaid drwy'r wlad i gynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. I wneud y gorau o'r cyfle newydd hwn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, Uned Addysg Ariannol Cymru. Dywed y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol bod yr Uned hon yn :

> "datblygu argymhellion ar raglen gefnogi i ysgolion ac awdurdodau lleol, drwy adolygu a rhannu arferion gorau. Maes o law y gobaith yw y bydd cylch gwaith yr Uned yn cael ei ymestyn i gynnwys cymorth i bobl ifanc ac oedolion sydd am barhau i ddysgu."[1]

Trwy ei strategaeth *Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri* ceisiodd Llywodraeth Cymru wella llythrennedd a rhifedd ym mhob grwp oedran yng Nghymru. Mae un agwedd ar y strategaeth hon wedi'i seilio ar wybod bod posibilrwydd bod diffyg llythrennedd ariannol yn ganlyniad uniongyrchol diffyg sgiliau sylfaenol.

Cydnabuwyd rôl y sector gwirfoddol yn darparu addysg ariannol gan y llywodraeth a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

Bydd y *Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Ariannol*, sydd ar ei hynt drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd, yn ei wneud yn ofyniad statudol bod yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn sefydlu corff i hybu dealltwriaeth gyhoeddus o'r system ariannol. Bydd hyn yn cynnwys helpu'r cyhoedd i ddeall materion ariannol yn well a gwella gallu pobl i reoli eu materion ariannol eu hunain.

**Cylch Gorchwyl**

[1] Llywodraeth Cymru, *Mae Pawb yn Cyfrif – Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru s*, Gorffennaf 2009, p64

- Ystyried a yw pobl o bob oedran mewn cymunedau trwy Gymru'n cael y cyfleoedd y maent eu hangen i ennill a datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sy'n ofynnol i wneud penderfyniadau doeth ynghylch cyllidebu, benthyca, yswiriant, cynilo a chynhyrchion ariannol eraill;

- Dynodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth addysg ariannol a dynodi enghreifftiau o arferion da a fyddai modd eu gwneud yn batrwm trwy Gymru;

- Edrych yn ofalus ar rôl y sectorau statudol, preifat a'r trydydd sector sy'n gweithio fel unigolion ac ar y cyd i ddarparu a hybu addysg ariannol yn ein cymunedau;

- Ymchwilio a yw'r addysg ariannol a gaiff ei darparu yn briodol i anghenion ac amgylchiadau unigolion;

- Asesu a wneir cysylltiadau effeithiol rhwng darparu addysg ariannol a darparu mynediad at wasanaethau ariannol.

- Edrych sut y gall addysg ariannol effeithiol gyfrannu tuag at sicrhau cymaint â phosib o incwm a lleihau cymaint â phosib dyledion;

- Asesu pa mor effeithiol a phriodol yw polisi Llywodraeth Cymru ar allu ariannol a sicrhau cymaint â phosib o incwm fel y nodir yn ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener,7 Mai 2010 fan bellaf.

Os yw'n bosibl, anfonwch gopi electronig yn MS Word neu fformat Rich Text drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn:

culture.committee@wales.gsi.gov.uk

Gofynnir i chi nodi a oes diddordeb gennych mewn dod i gyfarfod Pwyllgor i gyflwyno'ch sylwadau.

Gofynnir i chi gychwyn eich adroddiad drwy roi rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun, neu'ch sefydliad, cyn cyflwyno'ch safbwyntiau a'ch profiadau mewn cysylltiad â rhai o'r meysydd canlynol neu'r holl feysydd canlynol.

**Yr hyn yr hoffem ei gael oddi wrthych – cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Pa gyfleoedd a gaiff pobl yng Nghymru ar hyn o bryd i ennill a datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i wneud penderfyniadau doeth ar gyllidebu, benthyca a chynhyrchion ariannol?   A oes enghreifftiau o

arferion da o ran darparu addysg ariannol y byddai modd eu defnyddio'n batrwm trwy Gymru?

2. A yw'r ddarpariaeth addysg ariannol bresennol yn briodol ar gyfer anghenion ac amgylchiadau unigolion?

3. Pa fylchau a heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth addysg ariannol, a sut y mae modd mynd i'r afael â hwy?

4. Sut y mae modd cryfhau'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion gan bartneriaethau â sefydliadau trydydd sector, ac addysg ariannol a ddarperir yn y gymuned yn ehangach?

5. Beth a ystyriwch yw swyddogaethau priodol y sectorau statudol, preifat a'r trydydd sector i ddarparu a hybu addysg ariannol yn ein cymunedau? Sut y mae modd i sefydliadau o fewn y sectorau gwahanol weithio ar y cyd yn fwyaf effeithiol? A oes angen i Lywodraeth Cymru, neu Lywodraeth Leol gydlynu ymdrechion o'r fath yn strategol?

6. Pa swyddogaeth, os o gwbl, a ddylai undebau credyd a Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol ei chael i gynyddu gallu ariannol pobl ac i ddarparu addysg ariannol? A ydynt yn effeithiol yn hyn o beth?

7. Ym mha ffyrdd y mae modd i addysg ariannol effeithiol helpu i wneud y mwyaf o incwm, lleihau treuliau a lleihau dyled yn y pen draw?

8. A oes modd i addysg ariannol leihau'r nifer o bobl sy'n dibynnu ar fenthycwyr arian ar hap mewn rhai cymunedau (yn cynnwys benthycwyr cyfreithlon ac anghyfreithlon) sy'n codi llogau afresymol o uchel?

9. Beth a hoffech ei weld yn newid i'w gwneud yn haws monitro pa mor effeithiol yw addysg ariannol a lefelau gallu ariannol drwy Gymru?

10. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am allu ariannol neu ddarparu addysg ariannol i bobl o bob oed drwy Gymru?

Gwahoddir cyflwyniadau gan y rhai a nodir ar y rhestr ddosbarthu amgaeedig (Atodiad 1). Fodd bynnag, **byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi anfon copi o'r llythyr i unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt ar y rhestr ond a fyddai am gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl.** Mae copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ac mae yno wahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol, pan fo tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i darparu i bwyllgor, y caiff ei hystyried yn eiddo i'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn gosod papurau ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae modd eu hargraffu wedyn gyda'r*


*adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.*

*Fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am i'ch hunaniaeth fel awdur y dystiolaeth gael ei datgelu, dylid nodi hyn yn glir, a'ch penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth*

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor a'i ymchwiliad i'w gael yn:

Yn gywir



**Sandy Mewies**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

## Annex 1

Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales
Age Concern NE Wales
All Flintshire Credit Union
All Wales Ethnic Minority Association
All Wales Saheli Association
Anglesey Trading Standards
Anti Poverty Network Cymru
Asian Women's Group
Association of British Credit Unions
Association of chartered certified accountants
Association of Directors of Education in Wales
Association of Muslim Professionals
Association of Teachers and Lecturers
Association of Voluntary Orgisations in Wrexham
Autism Cymru
Bangladeshi Welfare Association
Bangladeshi Women's Group
Bank of Scotland
Barclays Bank
Bargoed Abergoed and Gilfach Credit Union Ltd
Barnados Young Carers
Barnardos Cymru
Basic Skills Agency Wales
Basic Skills Agency Wales
BBC Wales
Bevan Foundation
Big Lottery Fund
Black Association of Women Stepping Out
Black Environment Network (North Wales)
Black Voluntary Sector Network Wales
Brecon and District Credit Union Ltd
Bridgend Association of Voluntary Organisations
Bridgend Lifesavers Credit Union Ltd
Caledfryn Credit Union Ltd
Cardiff & the vale Credit Union
Careers Wales
Carmarthenshire Association of Voluntary Services
Cartrefi Conwy
CBI cymru wales
CCBC Genesis
Ceredigion Association of Voluntary Services
Chartered Institute of Housing Cymru
Children in Wales
Chinese Community Service Committee

Chwarae Teg
Citizens' Advice Bureau
Clwyd Alyn Housing Association
Clwyd Coast Credit Union
Clwyd Coast Credit Union Ltd
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Commission for Equality and Human Rights
Communities First Co-ordinators
Communities First Co-ordinators Overarching co-ordinators
Community Film maker
Community Housing Cymru
Continyou Cymru
Conwy & Denbighshire Mental Health Advocacy Service
Conwy CAB
Conwy Council
Conwy District CAB
Conwy Sure Start
Conwy Trading Standards
Conwy Voluntary Services Council
Conwy Volunteer Bureau
Co-operatives and mutuals wales
Credcer Credit Union Ltd
Crossroads Wales
Cw Taf Health Board
Cymdeithas Tai Eryri
Cymdeithas Tai Hafan
Cymru Yfory
Deaf Association Wales
Denbigh CAB
Denbigh Volunteer Bureau
Denbighshire CAB
Denbighshire Home Start
Denbighshire Trading Standards
Denbighshire Voluntary Services Council
Disability Wales
Dragonsavers Credit Union Ltd
DVSC
DWP Financial Inclusion Champion (Katija Dew)
Economic and Social Research Council
Energy Advice Centre N Wales
ESTYN
FCC
Federation of Small Businesses
Finance Wales
Financial Services Authority (Lee Phillips)
Flint High School
Flintshire CAB

Flintshire County Council
Flintshire LEA/14-19 Network
Flintshire Local Education Authority
Flintshire Mental Health Advocacy Services
Flintshire Parenting Strategy Coordinator
Flintshire Trading Standards
Flintshire Youth & Community Services
Forestry Commission Wales
FSA
Funky Dragon
Gateway Credit Union Ltd
Glyndwr University
Grant Thornton
Gwent Association of Voluntary Organisations
Gwynedd Trading Standards
Gwynedd Volunteer Bureau
Hafan Cymru
Halifax
Haven Credit Union Ltd
HSBC Bank UK
Illegal Money Lending Unit
Institute of Chartered Accountants in England and Wales
Institute of welsh affairs
Interlink
Islwyn Community Credit Union Ltd
Jobcentre Plus
Joint Committee for Ethnic Minorities in Wales
Joint Council for the Welfare of Immigrants
Joseph Rowntree Foundation
Kimberly-Clark
Landsker Community Credit Union Ltd
Landudno Credit Union
Lindsey Kearton – Senior Policy Advocate
Llandudno and District Credit Union Ltd
Lloyds TSB
Llynfi Valley Credit Union Ltd
Mantell Gwynedd
Marches Credit Union Ltd
Martin Lewis' Money Saving Expert.com
MBNA
Medrwn Mon
Merthyr Tydfil Borough Credit Union Ltd
MEWN Cymru
Mother’s Union in Wales
Muslim Council of Wales
NACRO/DAWN Services

National Association of Schoolmasters and union of women teachers
National Debtline
National Energy Action (Cymru)
National Union of Teachers
Neath Port Talbot Council for Voluntary Service
Neath Port Talbot Credit Union
NEWCIS
Newport Credit Union Ltd
NIACE
North Wales (Les Cooper) / Mid South and West Wales (Jane Wynn) Financial Capability Forums
North Wales Financial Inclusion Champion
North Wales Housing Association
North Wales Race Equality Network
Now let's talk money/DWP
NSPCC Cymru
Office of Fair Trading
Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council
Pembrokeshire Association of Voluntary Services
Pennysmart
Plant yng Nghymru
Play Wales
Polish Welsh Mutual Association
Powys Association of Voluntary Organisations
Powys CAB
Prime cymru
PSE Co-ord Denbighshire
Race Equality First
Red Kite Credit Union
Refugee Voice Wales
Robert Owen Montgomeryshire Credit Union Ltd
Rocket Science Limited
Royal Bank of Scotland
Samaritans
Santander
Save the Children Cymru
Save-Easy Llanelli and District Credit Union Ltd
SCOPE Cymru
Shelter Cymru
Shout
Skills for Life Materials
Smart Money Credit Union Ltd
SNAP Cymru
Somali Advice Centre
South East Wales Racial Equality Council
Splotlands Credit Union Ltd
St Helens District CAB,

St Therese's (Port Talbot) Credit Union Ltd
Standard Chartered Bank
Stonewall Cymru
Sudanese Community Association
Swansea Bay Race Equality Council
Swansea Council for Voluntary Service
Tai Hafan Housing Association
Tenovus
Tenovus
The National Deaf Children's Society
The Prince's Trust – Cymru
The Transport Credit Union Ltd
Tiana Pathmanathan – Policy Officer – Legal Services Commission
Torfaen Voluntary Alliance
Trading Standards FCC
Undeb Credyd Plaid Cymru Credit Union Ltd
UNICEF UK
UNISON Cymru
Vale Centre for Voluntary Services
Valleys Race Equality Council
Victim Support Wales
Voluntary Action Cardiff
Voluntary Action Merthyr Tydfil
Wales and West Housing Association
Wales Audit Office
Wales co-operative centre limited
Wales Council for Voluntary Action
Wales Illegal Money Lending Unit
Warm Wales
Welsh Asian Council
Welsh Consumer Council
Welsh Local Authorities Consortium for Refugees and Asylum Seekers
Welsh Local Government Association
Welsh Refugee Council
Wrexham County Borough Council
Wrexham County Borough Credit Union Ltd
Wrexham Trading Standards
Y Llechen Credit Union
Youth Cymru
Youthlink Wales
YWCA